



Andrew RT Davies AS

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

AndrewRT.Davies@senedd.cymru

27 Ebrill 2022

Annwyl Andrew,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 30 Mawrth, gwnaethoch godi mater pwysau ar staff sy'n gweithio yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Yn benodol, bu ichi ofyn am "ddeall...y cymarebau staffio yn yr adran Damweiniau ac Achosion brys yn y Faenor" ac "o'r cymarebau staff hynny, faint sy'n staff craidd a faint sy'n staff banc". Cytunais roi gwybodaeth bellach.

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr wybodaeth ganlynol am y gymhareb staff yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (mae'r holl ffigurau'n gyfwerth ag amser llawn):

- Ar gyfer nyrsio, cymhareb y staff parhaol i staff asiantaeth a staff banc yw 1.99 i 1.

Mae dadansoddiad pellach o'r nifer hwn sy'n dangos staff parhaol o'i gymharu â staff banc neu asiantaeth fel a ganlyn

- Nifer y staff nyrsio parhaol - 155.78
- Nifer y staff nyrsio asiantaeth a banc - 78.19
- O'r staff nyrsio asiantaeth a banc, mae 70% yn staff asiantaeth a 30% yn staff banc.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn cadarnhau ei fod wedi cytuno i gynyddu nifer y nyrsys cofrestredig parhaol i helpu i leihau'r defnydd o asiantaethau sydd ar waith i ymateb i lefelau uchel o alw. At hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi cefnogi rolau gweinyddol/derbynfa ychwanegol i gefnogi'r gwasanaeth. Hyd yn hyn, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r mentrau recriwtio hyn ac mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r staff a benodir yn eu swyddi.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services